*"Popeth a wnewch, gwnewch mewn cariad"*
*(I Corinthiaid xvi: 13)*

✧✧✧✧✧✧✧

**EGLWYS Y BEDYDDWYR**

# RHYDWILYM



## *Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn 2025*

*Diaconiaid :*

| | |
|---|---|
| 1978 | W. Russell Evans |
| | Dennis Lewis |
| 1996 | Mon Davies |
| 1997 | E. Eilir Davies |
| 2008 | Katrina Jenkins |
| | Beryl John |
| | Verina Thomas |

***Corfforwyd 1668***

## SWYDDOGION YR EGLWYS

*Ymddiriedolwyr:*
Dennis Lewis, W. Russell Evans,
Leighton Bryan, Emyr John

*Ysgrifennydd:*
Beryl John, Gorlan, Llanycefn (01437 563357)

*Ysgrifennydd Ariannol:*
E. Eilir Davies, Tŷ-Rhôs, Efailwen (01994 419649)

*Trysorydd:*
Mon Davies, Man Tawel, Llandysilio (01437 563853)

*Organyddion:*
Katrina Jenkins
Eilir Davies

*Archwiliwr y Cyfrifon:*
Ian Eynon

## ANERCHIAD

Annwyl gyd-aelodau,

Dyma gyflwyno Adroddiad Rhydwilym am y flwyddyn 2025. Mae'r flwyddyn wedi hedfan gyda'i thristwch a'i hapusrwydd yn rhan o bob aelwyd.

Trist yw cofnodi ein bod wedi ffarwelio yn sydyn iawn gydag un aelod sef Vernon Edwards yn ystod mis Tachwedd. Cofiwn am ei wasanaeth a'i garedigrwydd a chydymdeimlwn gyda'r teulu, hefyd cydymdeimlwn gyda'r aelodau sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd angladd hollol breifat y ddiweddar Mrs Val John, Heatherholme yn y fynwent yn unig a'r Parchg Eirian Wyn Lewis yn gwasanaethu.

Gwelwyd rhaglen ddiddorol ar S4C ym mis Gorffennaf sef "Y Byd ar Bedwar" yn cynnwys hanes a thrafodaeth am yr anghyfiawnder mawr yn Ffynnon Samson 'nôl yn 1976. 'Roedd Griff a Patti Thomas yn aelodau ffyddlon gyda ni yn Rhydwilym. Diolchwn yn fawr i Huw Absalom am gyfrannu.

Ar brynhawn braf o Hydref, rhoddodd Eilir a Russell groeso i aelodau o Gapel Bethel, Y Tymbl. Ar ôl oedfa fer yn y Capel, gwnaethant fwynhau edrych o amgylch y safle a chael dipyn o'r hanes gan Russell. Cawsom rodd o £50 ganddynt.

Wedyn, bu criw bach o bobl o ardal Arberth yn cerdded y cwm ac ymweld â'r Capel o dan ofal Nigel Rossiter, Arberth. Cawsom rodd o £30 ganddynt. Maen nhw yn gobeithio dod eto!

Cyrhaeddodd organ o "Aspire Classical Organs" y Capel – rhodd wrth Mon ac Eilir.

Cynhaliwyd priodas Islwyn a Suzanne ar y 19eg o Orffennaf. Gwasanaethwyd gan y Parchg Peter M. Thomas – dymunwn briodas dda a phob hapusrwydd iddynt.

Claddwyd y diweddar Mr Peter Hopkins a'i wraig Ann (Llangolman ac Amlwch) yn y fynwent ar ôl oedfa fer yn y Capel o dan ofal y Parchg Geoffrey Eynon.

Cynhaliwyd yr Oedfa Ddiolchgarwch yn mis Medi a Miss Natalie Morgan yn gwasanaethu – trosglwyddwyd arian y casgliad tuag at Ysbyty Prince Philip, Llanelli.

Dymunwn wellhad i'r aelodau sydd yn anhwylus a'r rhai sydd wedi derbyn triniaethau meddygol yn ystod y flwyddyn. Cofiwn hefyd am y rhai hynny sy'n methu bod yn bresennol yn yr oedfaon oherwydd henaint ac afiechyd. Anfonwn ein cofion at Emrys Llewelyn sydd mewn Cartref Gofal yn Hendy-gwyn ar Daf.

Mae'r Capel a'r adeiladau y tu mewn a thu allan yn edrych yn dda ar ôl i'r gwaith adnewyddu orffen ac mae y byrddau gwybodaeth yn fonws ar gyfer ymwelwyr. Diolchwn yn fawr i Ian Eynon, Huw John ac Ifan Davies (Adeiladwr) am gyflawni'r gwaith mawr yn ddi-ffws yn ystod y gaeaf a'r gwanwyn. Bu'r Parchg Peter M. Thomas yn agor y Capel ar ei newydd wedd ar ôl i'r gwaith adnewyddu orffen. Wedyn, ar nos Sul, 5ed o Hydref cynhaliwyd oedfa Adnewyddu "Tasglu Cristnogol Sir Benfro" (o dan ofal Hefin Wyn).

Diolchwn yn fawr i Brian a Meurig am ofalu am y ddwy fynwent eleni eto. Mae'n bleser gweld y ddwy.

Mae'r gwasanaethau yn mynd ymlaen o fis i fis ac yr ydym yn ffodus i gael gwahanol weinidogion i lanw'r Suliau. Wrth gwrs, 'rydym mor ddiolchgar i Eurfyl Lewis am drefnu rhain i ni. Mae rhestr yr oedfaon yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn, felly bydd pawb yn gwybod y drefn am y flwyddyn.

Awn ymlaen gyda'n gilydd i'r flwyddyn newydd yn ein hanes.

Bendith arnoch chi gyd.

Mon Davies
(Trysorydd)

## RHESTR O'R AELODAU A'U CYFRANIADAU AM 2025

*Colofnau Ariannol:* 1—Y Weinidogaeth; 2—U.B.C.;
3—Treuliau; 4—Rhodd Gymorth
(m)—Bu farw

| | 1. £ c. | 2. £ c. | 3. £ c. | 4. £ c. |
|---|---|---|---|---|
| Absalom, Huw, Manor Deilo | 250.00 | —— | —— | —— |
| Bryan, Leighton, Colman House | 100.00 | —— | —— | —— |
| Bryan, Marilyn, eto | 50.00 | —— | —— | —— |
| Bryan, Sara, eto | 50.00 | —— | —— | —— |
| Bryan, Siân, eto | 50.00 | —— | —— | —— |
| Davies, Nesta, Hwlffordd | 100.00 | 15.00 | —— | ** |
| Davies, Mon, Man Tawel | 150.00 | 18.50 | 5.00 | ** |
| Davies, Elsa, Banc y Felin | 100.00 | —— | —— | ** |
| Davies, Eilir, Tŷ-Rhôs | 200.00 | 18.50 | 20.00 | ** |
| Davies, Hafwen, Ffynnon Lwyd | 80.00 | —— | —— | ** |
| Davies, Rhodri, eto | 80.00 | —— | —— | —— |
| Davies, Rhys, eto | 80.00 | —— | —— | —— |
| Davies, Meinir, Llanfynydd | 50.00 | —— | —— | —— |
| Day, Helen, Leeds | 40.00 | —— | —— | —— |
| Edwards, Islwyn, Cefn Mwynant | 150.00 | —— | —— | —— |
| Edwards, Suzanne, eto | 150.00 | —— | —— | —— |
| Edwards, Vernon, Nantgaredig (m) | 250.00 | —— | —— | ** |
| Evans, Russell, Parc y Wern | 240.00 | —— | —— | ** |
| Eynon, Ian, Bryn Briallu | 120.00 | —— | —— | ** |
| Hoskins, Nerys, Y Tymbl | 25.00 | —— | —— | —— |
| Ifan, Gwenallt Llwyd, Tal y Bont | 110.00 | —— | —— | —— |
| Ifan, Delyth Llwyd, eto | 110.00 | —— | —— | —— |
| James, Howell, Tŷ Coch | 100.00 | —— | —— | —— |
| Jenkins, Katrina, Fferm Drefach | 130.00 | —— | —— | —— |
| John, Hafwen, Y Bala | 300.00 | —— | —— | ** |
| John, Dyfrig, Bonvilston | 300.00 | —— | —— | ** |
| John, Beryl, Y Gorlan | 100.00 | 18.50 | —— | —— |
| John, Geraint, Bloomfield | 25.00 | —— | —— | —— |
| John, Emyr, Blaenpant | 25.00 | —— | —— | —— |
| Jones, Eluned, Llechwedd | 200.00 | —— | —— | ** |
| Jones, Siân, Penfro | 80.00 | —— | —— | —— |
| Jones, Steffan eto | 80.00 | —— | —— | —— |
| Jones, Manon, eto | 80.00 | —— | —— | —— |
| Llewelyn, Brian, Efail Nantgwyn | 80.00 | —— | —— | —— |
| Llewelyn, Russell, Tŷ Uchaf | 200.00 | —— | —— | —— |
| Llewelyn, Ann, eto | 150.00 | —— | —— | —— |
| Llewelyn, Elaine, eto | 70.00 | —— | —— | —— |
| Llewelyn, Melanie, eto | 70.00 | —— | —— | —— |
| Llewelyn, John, Victoria House | 90.00 | —— | —— | —— |
| Llewelyn, Emrys, Waungron | 100.00 | —— | —— | —— |

| | 1. £ c. | 2. £ c. | 3. £ c. | 4. £ c |
|---|---|---|---|---|
| Lewis, Malgwyn, Neyland | —— | —— | —— | —— |
| Lewis, Dennis, Maenclochog | 100.00 | —— | —— | —— |
| Lewis, Iwan, Delfryn | 100.00 | 20.00 | —— | —— |
| Lewis, Hedydd, eto | 100.00 | 20.00 | —— | —— |
| Morris, Ian, Llandysilio | 50.00 | —— | —— | ** |
| Morris, Keith, Dŵr Bach | 50.00 | —— | —— | —— |
| Owen, Pamela, Maenclochog | 60.00 | —— | —— | —— |
| Owen, Meinir, Caerfyrddin | 45.00 | —— | —— | —— |
| Phillips, Ann, Penfro | 100.00 | —— | —— | —— |
| Phillips, John, Weybridge | 250.00 | —— | —— | ** |
| Phillips, Susan, Blaenffos | 50.00 | —— | —— | —— |
| Rees, David, Ely | 250.00 | —— | 25.00 | ** |
| Rees, Darwel, Arberth | 100.00 | —— | 30.00 | —— |
| Roberts, Anthea, Hwlffordd | 80.00 | —— | —— | —— |
| Rowlands, Morwen, Ynys Môn | 150.00 | —— | —— | —— |
| Thomas, Ann, Clynderwen | 100.00 | —— | 20.00 | ** |
| Thomas, Gareth, Brynamlwg | 100.00 | —— | —— | ** |
| Thomas, Verina, Cilau Ganol | 100.00 | —— | —— | ** |
| Watchman, Mary, Bethesda | 50.00 | —— | —— | —— |
| Williams, Gwenda, Pantirion Bach | 80.00 | —— | —— | —— |
| Youngman, Ann, Llainfach | 100.00 | —— | —— | ** |

** yn dynodi fod yr aelodau yma wedi arwyddo ffurflen rhodd gymorth fel bod y capel yn derbyn ad-daliad treth incwm wrth HMRC. Does dim ffordd I wybod yn gywir faint o ad-adaliad sydd yn ddyledus I unigolion, gan fod yr HMRC ddim yn rhannu'r wybodaeth yma.

**Bydd y llyfrau yn cau diwedd Rhagfyr 2026.**
**Byddwn yn ddiolchgar iawn i dderbyn eich cyfraniadau cyn hynny, er mwyn hwyluso gwaith paratoi yr Adroddiad Blynyddol.**

**CYFARFOD DIOLCHGARWCH**

Dydd Sul, 27ain Medi, 2026
am 2.00 o'r gloch –
Lyndon Lloyd

## CAREDIGION YR ACHOS

| | |
|---|---|
| Betty a Billy Smith | 50.00 |
| Parchedig P. M. a Mrs Thomas | 200.00 |
| Rhian Mai | 25.00 |
| Ieuan Davies | 40.00 |
| Janet Prout | 90.00 |
| Angharad Booth-Taylor | 30.00 |
| Rhodd Ymwelwyr: | |
| Capel Bethel Y Tymbl | 50.00 |
| Ramblers Arberth | 30.00 |
| | **£515.00** |

## YSTADEGAETH YR AELODAETH

| | |
|---|---|
| Rhif yr Aelodau ar 1af Ionawr, 2025 | 61 |
| Bu farw | 1 |
| Rhif yr Aelodau ar 31ain Rhagfyr, 2025 | 60 |

## CRONFA'R FYNWENT

| | £ c. |
|---|---|
| Mewn llaw ar 1af Ionawr, 2025 | 5,929.09 |
| G. & S. Llewelyn, Pen-y-Cwm | 220.81 |
| Mewn llaw 31ain Rhagfyr, 2025 | **£5,708.28** |

## MANTOLEN GYFFREDINOL YR EGLWYS AM Y FLWYDDYN 2025

*Derbyniadau*

| | £ c. |
|---|---|
| Yr Achos yn Rhydwilym | 6,730.00 |
| U.B.C. | 110.50 |
| Treuliau | 105.00 |
| Casgliadau Rhydd | 363.50 |
| Caredigion yr Achos | 515.00 |
| Rhodd Gymorth (i'w dderbyn yn hwyrach) | |
| Llog y Banc (COIF) | 2,332.51 |
| Rhent y Waun | 50.00 |
| Cyfarfod Diolchgarwch | 135.00 |
| Cymorth Cristnogol | 57.00 |
| SSE: Rhent Polyn | |
| Santander | 13.52 |
| Claddu Gweddillion | 500.00 |
| Ffilmio'r Capel gan S4C | 50.00 |
| Gwerthiant llyfrau Russell | 30.00 |
| Grant y Loteri | 20,093.10 |
| Grant adran y celfeddydau (ad-daliad y TAW) | 2,499.40 |
| Grant Cyngor Sir Benfro, Cronfa Eglwysi Cymru | 5,000.00 |
| | **£38,584.53** |

*Taliadau*

| | £ c. |
|---|---|
| Talu Gweinidogion | 975.00 |
| U.B.C. | 1,302.00 |
| Yswiriant yr Eiddo | 1,174.23 |
| Trydan | 1,171.52 |
| Tacluso'r Eiddo | 3,500.00 |
| Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion | 62.00 |
| Cymdeithas y Beibl | |
| Cymorth Cristnogol | 150.00 |
| Ysbyty Llanelli | 135.00 |
| Argraffwyr E L Jones | |
| Rhodd i Eisteddfod y Garreg Glas | 200.00 |
| Tysteb i Bonni Davies | 25.00 |
| Stampiau a llyfr llofnodi ymwelwyr | 35.89 |
| Gwaith toi'r Capel a'r Hen Ysgol ayyb | 36,391.00 |
| | **£45,121.64** |

## MANTOLEN GYFFREDINOL YR EGLWYS AR Y 31ain RHAGFYR 2025

### ASEDAU

| | £ c. |
|---|---|
| **Yn y Banc ar 31ain Rhagfyr, 2025:** | |
| Cyfrif y "Llog Uwch" (COIF) | 80,000.00 |
| Cyfrif Cyffredinol (Barclays) | 10,340.21 |
| Santander (Shares) | 258.00 |
| Yn ddyledus i'r Trysorfa | 377.18 |
| | **£90,975.39** |

**Arian wedi ei neilltuo wrth gefn ar 31ain Rhagfyr, 2025:**

| | £ c. | £ c. |
|---|---|---|
| Arian ni ellir ei wario (llog yn unig) | 40,000.00 | |
| Wedi derbyn ymlaen llaw am 2026 | 150.00 | |
| Cronfa arbennig y fynwent | 5,000.00 | |
| Cronfa gyffredinol y fynwent | 5,708.28 | |
| | | 50,858.28 |
| Cronfa Gyffredinol | 46,654.22 | |
| Yn ddyledus am y flwyddyn | 6,537.11 | |
| | | 40,117.11 |
| | | **£90,975.39** |

## RHESTR OEDFAON 2026

| | |
|---|---|
| Chwefror 8fed | Oedfa Gymun 10.30 . . . . . Shan Jones |
| Chwefror 22ain | Brecwast Gŵyl Dewi yng Nghaffi Beca<br>yng nghwmni Cleif Harpwood |
| Mawrth 8fed | Angen llenwi |
| Mawrth 22ain | Oedfa am 10.30 . . . . . Orinda Roberts |
| Ebrill 5ed<br>(Sul y Pasg) | Oedfa am 2.00 . . . . . o dan ofal Delyth, Gwenallt ac Esther |
| Ebrlll 19eg | Oedfa am 2.00 . . . . . Tudur Dylan |
| Mai 3ydd | Oedfa Gymun am 2.00 . . . . . Wyn Morris |
| Mai 17eg | Oedfa am 2.00 . . . . . Parchg Peter Thomas |
| Mai 31ain | Oedfa am 2.00 . . . . . Alun Lenny |
| Mehefin14eg | Oedfa Gymun am 10.30 . . . . . Donna George |
| Mehefin 28ain | Oedfa am 2.00 . . . . . Eirian Wyn |
| Gorffennaf 12fed | Oedfa Gymun am 2.00 . . . . . Parchg Judith Morris |
| Gorffennaf 26ain | Oedfa am 2.00 . . . . . Natalie Morgan |
| Medi 13eg | Oedfa Gymun am 10.30 . . . . . Shan Jones |
| Medi 27ain | **Oedfa Ddiolchgarwch am 2.00** . . . . . Lyndon Lloyd |
| Hydref 11eg | Oedfa Gymun am 10.30 . . . . . Catrln I. Thomas |
| Hydref 18fed/25ain | Cymanfa Ganu 10.30 |
| Tachwedd 8fed | Oedfa Gymun am 2.00 . . . . . Tom Evans |
| Tachwedd 22aln | Oedfa am 2.00 . . . . . Hedd Ladd-Lewis |
| Rhagfyr 6ed | Angen llenwi |
| Rhagfyr 20fed | Cwrdd Nadolig aelodau am 10.30 |

## RHEOLAU'R FYNWENT

Mewn cyfarfod o'r swyddogion fe wnaed adolygiad o reolau'r fynwent. Islaw mae rhestr o'r rheolau ar eu newydd wedd. Mae yr adolygiad hwn o'r rheolau yn dod â rheolau mynwent Rhydwilym yn unol â rheolau mynwentydd eglwysi eraill yn yr ardal.

1. Ar ochr chwith y fynwent newydd caniateir cerrig pen yn unig, heb gwrbyn.
2. Ar yr ochr chwith hefyd rhaid dilyn ymlaen y safle nesaf at y bedd diwethaf hyd ddiwedd y rhestr.
3. Mae hawl i gadw hyd at ddau le ar ochr bedd newydd. Os byddwch am gadw lle, mae'n bwysig i chwi roi gwybod i Brian Llewelyn, sydd yn gyfrifol am y fynwent yn awr, er mwyn nodi hyn ar gynllun y fynwent, fel bod pawb yn gwybod fod y safle wedi ei gadw.
4. Bydd tâl o £300 am gladdu unrhyw un na fydd yn aelod o'r eglwys.
5. Gofynnir i chwi sicrhau fod y saer maen yn mynd i ffwrdd ag unrhyw sbwriel a ddaw o ailagor bedd neu atgyweirio bedd, yn enwedig y conrid.
6. Gofynnir i bawb yn garedig wrth lanhau beddau **fynd adref ag unrhyw wydr a bagiau plastig a hen dorchau** o'r fynwent, ac nid ei daflu i'r blwch porfa. Rydym wedi cael problem gyda hyn o hyd.

✧✧✧✧

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Gorchymyn y Ddeddf Elusen i'r Pwyllgor Rheolaeth ddarparu datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon rhaid i'r pwyllgor rheolaeth:

- ✧ ddewis polisïau cyfrifo addas a'u defnyddio'n gyson;
- ✧ ffurfio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth;
- ✧ ddatgan a yw'r polisïau a safonau a fabwysiadwyd yn unol â'r datganiadau o ymarferion a argymhellwyd a safonau cymwys yn ôl gofynion y Ddeddf Elusen;
- ✧ baratoi datganiadau ariannol ar sail busnes byw os nad yw'n anaddas tybio y bydd y sefydliad yn parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw adroddiadau cyfrifon priodol sy'n dadlennu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y sefydliad ac i'w galluogi i gydymffurfio â'r Ddeddf Elusen. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedion y sefydliad.

### Adroddiad Archwiliwr i Aelodau Capel y Bedyddwyr, Rhydwilym

Yr wyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol a ddarparwyd dan gonfensiwn hanesyddol a pholisïau cyfrifo a ddisgrifir uchod.

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Cyfrifoldebau priodol y pwyllgor rheolaeth a'r archwilwyr.**

Fel y disgrifiwyd uchod mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw ffurfio barn annibynnol wedi ei selio ar fy archwiliad ar y datganiadau hynny a rhoi adroddiad o'm barn i chi.

**Sail y farn**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sydd yn berthnasol i faint ariannol Mantolen Eglwys Rhydwilym i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhoi'r argraff gywir.

**Barn**

Yn fy marn mae'r Cyfrifon Ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o gyflwr materion ariannol Eglwys Rhydwilym ar 31 Rhagfyr, 2025 ac am y flwyddyn a ddiweddodd.



D. I. J. Eynon (Archwiliwr y Cyfrifon)

Argraffwyr E. L. Jones, Aberteifi (01239 612251)